

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	18 Ionawr 2023
TEITL:	ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA
PWRPAS:	Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol ac adolygu amcanion y dyfodol
ARGYMHELLIAD:	NODI CYNNYDD A CHYMERADWYO AMCANION Y DYFODOL
AWDURON:	Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi Dafydd Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa

1. CYFLWYNIAD

Ar ddiwedd 2018, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("CMA") y dylai Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi. Mae'r amcanion yma yn cael ei gosod a diweddarau pob blwyddyn.

2. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae'r CMA yn nodi y dylai amcanion ar gyfer ymgynghorwyr gynnwys diffiniad clir o'r canlyniad a ddisgwylir, a dylent:

- fod wedi'u cysylltu yn agos gydag amcanion strategol y gronfa bensiwn
- cael eu hadolygu o leiaf pob tair blynedd, ac ar ôl pob newid sylweddol i'r strategaeth fuddsoddi neu amcanion

Mae sefydlu amcanion tymor hir yn rhan o drefniadau llywodraethu da. Mae'r estyniad o osod amcanion i ymgynghorwyr buddsoddi yn gallu cael ei ystyried fel dilyniant naturiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn anelu tuag at yr un nod.

3. AMCANION CRONFA BENSIWN GWYNEDD I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae amcanion Cronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1, gydag adroddiad cynnydd yn erbyn yr amcanion yn ystod 2022.

Mae gofyn i'r datganiad cydymffurfio gael ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau.

4. AMCANION Y DYFODOL

Bydd y ddeg amcan cyfredol yn parhau am y cyfnod nesaf, gyda dau amcan newydd ychwanegol (11 a 12 yn Atodiad 1) awgrymir i'w hystyried gan y Pwyllgor.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad cynnydd a chymeradwyo amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf.